OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 1999 No. 2800

# Rheoliadau Ysgolion Newydd (Derbyniadau) (Cymru) 1999

**Trefniadau arbennig ar gyfer cymeriad crefyddol ysgolion newydd**

**6.**—(1) Mae'r Rheoliad hwn yn darparu ar gyfer cynnwys yn y trefniadau derbyn cychwynnol ar gyfer ysgol a fydd yn ysgol sefydledig neu'n ysgol wirfoddol a gynorthwyir â chymeriad crefyddol iddi drefniadau ynglŷn â derbyn disgyblion i'r ysgol er mwyn diogelu cymeriad crefyddol yr ysgol ("trefniadau arbennig").

(2) Pan gytunir ar unrhyw drefniadau arbennig a ddymunir gan yr awdurdod derbyn dros ysgol o'r fath gan yr awdurdod addysg lleol —

(a) caiff yr awdurdod derbyn eu hymgorffori yn y trefniadau derbyn cychwynnol arfaethedig sy'n ddarostyngedig i ymgynghoriad o dan reoliad 4(2); a

(b) os bydd yr awdurdod derbyn yn gwneud hynny, bydd rheoliad 5(1) yn gymwys i unrhyw wrthwynebiad ynglŷn â'r trefniadau arbennig —

(i) a wneir gan awdurdod derbyn yr ymgynghorwyd ag ef o dan reoliad 4(2)(b), a

(ii) sy'n dod o fewn cwmpas y rheoliad hwnnw,

fel y bo'n gymwys i unrhyw wrthwynebiad arall sy'n dod o fewn cwmpas y rheoliad hwnnw.

(3) Pan na chytunir ar unrhyw drefniadau arbennig a ddymunir gan gorff llywodraethu dros dro ysgol newydd o'r fath gan yr awdurod addysg lleol —

(a) caiff yr awdurdod derbyn ymgorffori drafft o unrhyw drefniadau o'r fath yn y trefniadau derbyn cychwynnol arfaethedig sy'n ddarostyngedig i ymgynghoriad o dan reoliad 4(2); ond

(b) os bydd y corff llywodraethu dros dro yn gwneud hynny-

(i) byddant yn cyfeirio'r trefniadau drafft at y Cynulliad, a

(ii) ni fyddant yn penderfynu mabwysiadu'r trefniadau hynny yn y trefniadau derbyn cychwynnol ar gyfer yr ysgol oni fydd (ac i'r graddau y bydd) y Cynulliad yn penderfynu y gallant wneud hynny o dan y rheoliad hwn, a

(iii) caiff unrhyw un o'r cyrff yr ymgynghorwyd â hwy o dan reoliad 4(2) godi gwrthwynebiad yn y dull a ragnodir gan O.S. 1999/125 i'r Cynulliad ynglŷn â'r trefniadau drafft.

(4) Ar ôl cael cyfeiriad o'r fath, bydd y Cynulliad yn penderfynu (gan roi sylw i unrhyw wrthwynebiadau a gafwyd ganddo o dan baragraff (3)) a gaiff yr awdurdod derbyn fabwysiadu'r trefniadau drafft, heb eu haddasu neu beidio, ond ni fydd dim yn y paragraff hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad gymryd camau o'r fath cyn bod y cynigion y mae'n ofynnol eu cyhoeddi o dan adran 28(1) a (2) o Ddeddf 1998 wedi'u cymeradwyo yn unol â darpariaethau Atodlen 6 i'r Ddeddf honno.

(5) Yn achos unrhyw trefniadau drafft a gyfeirir ato o dan y rheoliad hwn, bydd y Cynulliad yn cyhoeddi ei benderfyniad ar y cyfeiriad a'r rhesymau drosto.

(6) Dyma'r wybodaeth y dylid ei chyhoeddi o dan baragraff (5) —

(a) enw'r awdurdod derbyn ac (os yw'n wahanol) yr ysgol y mae'r trefniadau derbyn cychwynnol yn ymwneud â hwy; a

(b) disgrifiad byr o'r penderfyniad a'r rhesymau drosto.

(7) Bydd penderfyniad y Cynulliad ar unrhyw gyfeiriad o'r fath ynglŷn â'r trefniadau drafft o dan sylw, yn rhwymo'r corff llywodraethu dros dro a phob person yr ymgynghorwyd â hwy o dan reoliad 4(2).

(8) Pan fydd awdurdod derbyn, yn unol â darpariaethau blaenorol y rheoliad hwn (a chyhyd ag y bo'n gymwysadwy, rheoliadau 4 a 5), benderfynu y dylai'r trefniadau derbyn cychwynnol ar gyfer eu hysgol gynnwys unrhyw drefniadau arbennig, bydd y darpariaethau hynny yn gymwys ar unrhyw adeg wedi hynny —

(a) pan fydd yr awdurdod derbyn yn dymuno addasu'r trefniadau arbennig hynny; neu

(b) lle cytunodd yr awdurdod addysg lleol ar unrhyw drefniadau o'r fath, pan fydd yr awdurdod yn tynnu eu cytundeb ar y trefniadau hynny yn ôl neu unrhyw ran ohonynt p'un ai gyda golwg ar geisio gwneud unrhyw addasiad iddynt neu fel arall.